

Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

Rhwydwaith
Ffermio
er Lles
Natur



Nature
Friendly
Farming
Network

Annwyl Prif Weinidog Cymru

Parthed: COP26 a Ffermio Er Lles Natur

Wrth i'r DU gynnal COP26, mae'n hanfodol bod Llywodraeth Cymru yn arwain trwy esiampl ac yn creu, a rhoi ar waith, agenda hinsawdd a byd natur genedlaethol feiddgar.

Fel ffermwyr a chynrychiolwyr sefydliadau defnyddwyr, amgylcheddol, lles anifeiliaid a chymunedol ledled Cymru, rydym yn erfyn arnoch i weithredu cyn iddi fynd yn rhy hwyr.

Gwyddom fod cysylltiad annatod rhwng arferion ffermio a chyflwr ein hamgylchedd. Yng Nghymru, mae Llywodraeth Cymru wedi addo cyflwyno cyfres o bolisïau amaethyddol blaengar i sicrhau fod gennym sector bwyd a ffermio cynaliadwy sy'n cyfrannu'n sylweddol at nodau amgylcheddol, gan gynnwys adferiad byd natur a mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd, tra'n cynhyrchu bwyd iach cynaliadwy a chynnal cymunedau gwledig llewyrchus ar yr un pryd.

Fel ffermwyr sy'n ffermio er lles natur, rydym yn croesawu'r ymrwymiad hwn yn fawr. Gyda byd natur yn dirywio a chysgod yr argyfwng hinsawdd arnom, gwyddom nad yw parhau â'r drefn bresennol yn opsiwn. Mae helpu i sicrhau fod ffermio er lles natur yn rhywbeth arferol a chyffredin yn hanfodol i greu busnesau gwydn, i adfer a gwella ein hamgylchedd naturiol a sicrhau y gall ffermwyr gynhyrchu bwyd iach a maethlon.

Mae ein hadroddiad diweddar: "[Rethink Farming: A Practical Guide to Climate & Biodiversity Restoration](#)", yn dangos bod ffermwyr ledled Cymru (a gweddill y DU) eisoes yn rhoi'r systemau hyn ar waith. Rydym yn cynrychioli cymuned unigryw yn y sector sy'n barod i fynd i'r afael ag argyfyngau deublyg yr hinsawdd a byd natur. Yr hyn sydd wrth wraidd ymdrechion y ffermwyr hyn yw ymdeimlad o gydweithredu ac o reidrydd fod gan ffermio gyfle unigryw i newid. Rydym yn profi ac yn dangos, ar draws nifer o rannau o'r DU, sut mae rôl ffermwr yn esblygu.

Er mwyn sicrhau'r raddfa angenrheidiol o newid sydd ei hangen, mae angen cefnogi ffermwyr drwy bolisïau uchelgeisiol sy'n eu gwobrwyo am ddarparu nwyddau cyhoeddus nad yw'r farchnad yn talu amdanynt, megis cynyddu'r nifer o rywogaethau a chynefinoedd bywyd gwylt, cynnal a chynyddu'r gallu i ddal a storio carbon, cynnal cyrsiau dŵr glân, lleihau'r risg o lifogydd, gwella ansawdd yr aer, creu priddoedd iach, gwella mynediad i'r cyhoedd yn ogystal â chynnal buddion iechyd a lles cymdeithasol.

Rydym yn erfyn ar Lywodraeth Cymru i weithredu'r mesurau canlynol fel bod ffermwyr yn cael eu cefnogi i wneud y newidiadau sydd wir eu hangen i ddarparu system fwyd a ffermio gwydn;

- **Cyflawni'r uchelgais:** Rhaid i systemau cymorth amaethyddol yn y dyfodol hwyluso a gwobrwyo ffermwyr yn briodol am gyflawni buddion amgylcheddol. Dylai hyn ystyried costau, amser ac ymdrech y ffermwr, gan adlewyrchu gwerth buddion amgylcheddol a chymdeithasol hefyd. Gall Llywodraeth Cymru chwarae rhan allweddol wrth helpu ffermwyr i fynd tu hwnt i gyflawni arferion da sylfaenol er mwyn bwrw ymlaen â gwelliannau go iawn yn yr amgylchedd naturiol. Bydd angen buddsoddiad ar gyfer hyn - ond bydd yn talu ar ei ganfed.



Cyswilt Amgylchedd
Cymru | Wales
Environment Link



- **Eglurder:** Er ein bod yn croesawu'r uchelgais lefel uchel a gynigiwyd yn y Papur Gwyn Amaethyddiaeth (Cymru) diweddar, mae diffyg eglurder a manylder ynghylch y Cynllun Ffermio Cynaliadwy newydd a'r cyfnod trosglwyddo iddo yn peri pryder. Gofynnwn ichi greu trywydd amlwg ar gyfer y 10 mlynedd nesaf o bolisiau ffermio yng Nghymru gyda thargedau a cherrig milltir clir, i roi amser i ffermwyr baratoi a chynllunio ar gyfer y newidiadau sydd o'u blaenau.
- **Sicrhau tegwch:** Dylai'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy newydd fod ar gael i bob ffermwr gweithredol, p'un ai ydynt yn ffermio fel perchnogion preswyl, tenantiaid, ar dir comin neu ar drefniant meddiannu tir arall. Mae gan bob ffermwr y potensial i ddarparu nwyddau a gwasanaethau amgylcheddol, a gellir annog hyn heb niweidio unrhyw sector arall. Rhaid inni osgoi creu clytwaith o gefnogaeth y gall rhai ffermwyr yn unig ei ddefnyddio, tra na all eraill wneud hynny.
- **Amaethyddiaeth Sero Net:** Cynyddu'r ymrwymiad i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr drwy gyfres o gamau ymarferol a fframwaith sy'n cefnogi ffermwyr i'w dilyn, ochr yn ochr â dal a storio carbon ar eu ffermydd. Rhaid inni fod yn ofalus na ddefnyddir terminoleg sero net i gyfiawnhau 'gwrthbwysio carbon' sy'n caniatáu parhad allyriadau mawr yn rhywle arall. Mae'n hanfodol cefnogi ffermwyr i ddarparu atebion ar sail natur i fynd i'r afael â newid hinsawdd. Hefyd, o ran plannu coed, mae'n rhaid i ni blannu'r *goeden iawn yn y man iawn* gyda chynllun ac adnoddau digonol ar gyfer rheoli coetir yn y tymor hir.
- **Amddiffyn a sicrhau safonau uchel:** Ni fu cynnal ein safonau uchel i ddiogelu'r amgylchedd, lles anifeiliaid a diogelwch bwyd erioed mor bwysig (gartref a thramor). Yn y bôn, mae'n rhaid i'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol arfaethedig ar gyfer Amaethyddiaeth alluogi ffermwyr i gynhyrchu bwyd diogel, iach wrth helpu adfer ein hadnoddau naturiol a'u galluogi i ffynnu.
- **Gosod targedau uchelgeisiol** â sail gyfreithiol iddynt ar gyfer adfer byd natur yng Nghymru. Dylai fod gan dargedau newydd linellau amser clir a dylent alluogi ffermwyr i'w cyflawni drwy gysylltu cymelliadau yn y dyfodol â chyflawni ymrwymadau amgylcheddol allweddol.
- **System Fwyd Cymreig sy'n Addas ar gyfer Cenedlaethau'r Dyfodol:** Mae angen system fwyd drawsnewidiol arnom sy'n sicrhau bod ffermwyr yn cael elw teg am greu bwyd iach, fforddiadwy sy'n cael ei gynhyrchu'n lleol ac mewn ffordd gynaliadwy. Mae Strategaeth Bwyd Cymunedol arfaethedig Llywodraeth Cymru yn cynnig cyfle hanfodol i gydlynu polisi bwyd ar draws holl feysydd gwaith y llywodraeth gan gynnwys iechyd, addysg, yr amgylchedd a'r economi. Y peth rhyfeddol am fwyd yw eich bod chi'n cael tair pleidlais y dydd ac mae gan bob un ohonynt y potensial i newid y byd.
- **Mesur** sut mae systemau ffermio yn effeithio ar fioamrywiaeth a'n hamgylchedd naturiol drwy gyflwyno tryloywder, y gallu i olrhain a labelu mwy clir ar gynhyrchion bwyd fel bod defnyddwyr yn gwybod mwy am fesurau cynhyrchu bwyd a'u cyfraniad at fudd y cyhoedd.

Mae'r amser wedi dod i Lywodraeth Cymru arwain gyda deddfau a pholisiau beiddgar ac uchelgeisiol a fydd yn trawsnewid er gwell ffermio yng Nghymru ar gyfer ein hinsawdd a bywyd gwyllt ac, yn ei dro, yn creu amgylchedd iachach i fyd natur a phobl.

Mae gennych ddoniau, dyfeisgarwch, gwybodaeth a sgiliau ffermwyr ledled y wlad a all wireddu'r uchelgais hon. Gweithredwch nawr i ddangos yr arweiniad a all wneud newid positif cyn iddi fynd yn rhy hwyr.

Yr eiddoch yn gywir,

Hilary Kehoe, Cadeirydd Cymru, Rhwydwaith Ffermio Er Lles Natur

cc Y Gweinidog dros Faterion Gwledig, Y Gweinidog Newid Hinsawdd, Y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd

